Rhif: **WG16325**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Hysbysiadau cosb am golli'r ysgol yn rheolaidd

Dyddiad cyhoeddi: **30 Tachwedd 2012**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **22 Chwefror 2013**

# Hysbysiadau cosb am golli'r ysgol yn rheolaidd

**Trosolwg**

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynigion i gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig am golli'r ysgol yn rheolaidd.

**Sut i ymateb**

Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **22 Chwefror 2013** fan hwyraf.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

**Manylion cysylltu**

I gael rhagor o wybodaeth:
Y Gangen Lles Disgyblion
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: WELLBEINGshare@cymru.gsi.gov.uk

Ffôn: 029 2082 1076

© Hawlfraint y Goron 2012
WG16325

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# Cynnwys


**Cyflwyniad** **1**

**Cefndir** **2**

Effeithiolrwydd hysbysiadau cosb 6
Defnyddio hysbysiadau cosb 6

**Y cynigion** **9**

Cod ymddygiad lleol 9
Pwy all gael hysbysiad cosb? 10
Unwaith y bydd hysbysiad cosb wedi ei gyflwyno 10

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn** **11**

**Ymateb i'r ymgynghoriad a chamau nesaf** **12**

## Cyflwyniad

1. Cydnabyddir yn gyffredinol fod presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle i gyrraedd eu potensial llawn. Mae plant sy’n absennol o’r ysgol yn aml yn mynd ar ôl gyda’u gwaith ac yn cyflawni’n wael o ganlyniad.

2. Yn y ddogfen *Gwella ysgolion* a gyhoeddwyd yn ddiweddar, nodir cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella’r system addysg yng Nghymru, sy’n cynnwys gyrru ymlaen gyda gweithgareddau i wella presenoldeb. Mae’r ddogfen ymgynghori hon yn amlinellu ein cynigion ar gyfer cyflwyno hysbysiadau cosb sefydlog, fel ffordd amgen o fynd i’r afael ag absenoldebau mynych a diawdurdod.

3. Mae targedu ymyriadau ac ymgysylltu’n effeithiol yn hollbwysig wrth geisio datrys presenoldeb gwael yn yr ysgolion. Fodd bynnag, os yw hynny’n methu â chael yr effaith a ddymunir, ac os nad yw presenoldeb yn gwella, mae nifer o opsiynau ar gael eisoes i’r awdurdodau lleol (ALlau) a’r ysgolion, er mwyn sicrhau presenoldeb rheolaidd.

4. Wrth ystyried y strategaeth fwyaf addas ar gyfer gwella presenoldeb, yn enwedig absenoldebau diawdurdod, cynigir y byddai hysbysiadau cosb, mewn rhai amgylchiadau, yn ddull cyflym, addas ac effeithiol o wella’r lefelau absenoldeb diawdurdod.

5. Mae’r cynigion hyn yn amcanu i osgoi erlyniadau maith a chostus yn y llysoedd. Er y dylai erlyn drwy’r llysoedd barhau’n fater i’w ystyried mewn achosion o amhresenoldeb eithafol, byddai defnyddio hysbysiadau cosb, mewn achosion sy’n llai cyndyn na’i gilydd, yn lleihau nifer yr erlyniadau, ac yn galluogi’r Gwasanaeth Lles Addysg (GLlA) i dargedu ei amser a’i ymyriadau yn fwy effeithiol.

6. Adran 444A o Ddeddf Addysg 1996 sy’n darparu’r sail gyfreithiol ar gyfer cyflwyno hysbysiadau cosb y gellir eu defnyddio fel dewis amgen, yn hytrach nag erlyn mewn achosion o amhresenoldeb rheolaidd mewn ysgolion. Dylid edrych ar hysbysiadau cosb fel **opsiwn ychwanegol**, i gyd-fynd â’r mesurau ymyrryd sydd eisoes ar gael.


## Cefndir

7. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi sefydlu nifer o fesurau i wella presenoldeb yn ein hysgolion, megis Fframwaith Dadansoddi Ymddygiad a Phresenoldeb, sy'n defnyddio data cadarn i darganfod unrhyw broblemau presenoldeb yn gynnar yng ngyrfa'r plentyn. Gall y fframwaith dadansoddi ganfod tueddiadau absenoldeb yn ogystal, a thrwy hynny ychwanegu at lwyddiant yr ymyriadau a dargedir yn benodol.

8. O ganlyniad, mae'r data a ryddhawyd yn ddiweddar ar absenoldeb mewn ysgolion uwchradd[1] yn dangos bod cyfraddau presenoldeb yn symud i'r cyfeiriad a ddymunir, sef cynnydd o 0.8 pwynt canran o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae lefel yr absenoldebau diawdurdod yng Nghymru yn parhau i beri pryder. Mae ymchwil yn dangos y gall canlyniadau TGAU disgybl sy'n absennol o'r ysgol am 17 diwrnod, yn awdurdodedig neu'n ddiawdurdod, ostwng o un radd ym mhob pwnc.

9. Mae'r ystadegau diweddaraf ar Gyraeddiadau Academaidd yn ôl Nodweddion Disgyblion[2], a gyhoeddwyd ym Mawrth 2012, yn dangos bod perthynas rhwng presenoldeb gwael a chyrhaeddiad isel, fel y darlunnir yn y tablau canlynol.

**Tabl 1 – Canran o ddisgyblion yn cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd[3] yng Nghyfnod Allweddol 2 yn erbyn cyfraddau absenoldeb cyffredinol, 2009–2011**





[1] www.cymru.gov.uk/topics/statistics/headlines/schools2012/120925/?lang=cy
[2] www.cymru.gov.uk/topics/statistics/headlines/schools2012/120328/;jsessionid=E32B2BDC040EED0D20E95F43B2341CD6?lang=cy
[3] Dangosydd Pynciau Craidd – Cymraeg Iaith Gyntaf, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth

| Cyfraddau absenoldeb cyffredinol 2011 | Dangosydd Pynciau Craidd % |
|---|---|
| 0% | 92.5% |
| Dros 0%, hyd at 4% | 88.4% |
| Dros 4% hyd at 6% | 86.3% |
| Dros 6% hyd at 10% | 82.2% |
| Dros 10% hyd at 20% | 74.6% |
| Dros 20% hyd at 30% | 56.1% |
| Dros 30% hyd at 50% | 38.7% |

- Yn 2011, y disgyblion nad oeddent wedi colli unrhyw sesiwn ysgol oedd â'r ganran uchaf ohonynt wedi cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd (92.5 y cant).

- Roedd lefelau cyrhaeddiad yn gostwng wrth i'r cyfraddau absenoldeb cyffredinol gynyddu; 38.7 y cant yn unig o'r disgyblion a gollodd rhwng 30 y cant a 50 y cant o'r sesiynau ysgol a gyrhaeddodd y Dangosydd Pynciau Craidd.

**Tabl 2 – Canran o ddisgyblion yn cyflawni trothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU gradd A*–C mewn Cymraeg (Iaith Gyntaf) neu Saesneg a Mathemateg[4] yng Nghyfnod Allweddol 4 yn erbyn cyfraddau absenoldeb cyffredinol, 2009–2011**




---
[4] Cymraeg Iaith Gyntaf, Saesneg Iaith a Mathemateg

| Cyfraddau absenoldeb cyffredinol 2011 | Trothwy Lefel 2 gan gynnwys TGA gradd A*–C mewn Cymraeg Iaith Gyntaf neu Saesneg a Mathemateg |
|---|---|
| 0% hyd at 4% | 67.2% |
| Dros 4% hyd at 6% | 61.3% |
| Dros 6% hyd at 10% | 54.7% |
| Dros 10% hyd at 20% | 40.1% |
| Dros 20% hyd at 30% | 20.9% |
| Dros 30% hyd at 50% | 9.7% |
| Dros 50% | 2.0% |

- Yn 2011, y disgyblion a oedd wedi colli rhwng 0 y cant a 4 y cant o'r sesiynau ysgol a oedd â'r ganran uchaf ohonynt wedi cyrraedd y trothwy Lefel 2 Cymraeg (Iaith Gyntaf), Saesneg a Mathemateg (67.2 y cant).

- Roedd y lefelau cyrhaeddiad yn gostwng wrth i'r cyfraddau absenoldeb cyffredinol gynyddu; y disgyblion a gollodd dros 50 y cant o'r sesiynau a oedd â'r lefelau cyrhaeddiad isaf (2.0 y cant).

10. Fel y dengys y data yn y tablau, po uchaf yw'r gyfradd presenoldeb, uchaf yw lefel y cyrhaeddiad. Mynd i'r afael yn gyflym ac effeithiol â materion absenoldeb rheolaidd lefel isel yw'r allwedd i sicrhau bod y cyfraddau presenoldeb yn parhau i wella, a lefelau cyrhaeddiad y disgyblion yn codi i'w canlyn.

11. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod plant sydd â phresenoldeb gwael yn annhebygol o lwyddo yn academaidd, ac yn fwy tebygol o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) ar ôl gadael yr ysgol. Mae'r bobl ifanc NEET yn debygol o fod â hanes o bresenoldeb gwael, ac o fod â chyfraddau uwch o absenoldeb rheolaidd ym Mlynyddoedd 10 ac 11, o gymharu â phobl ifanc yn gyffredinol.

12. Mae data a ryddhawyd yn ddiweddar ar absenoldeb o ysgolion uwchradd yn 2011/12[5] yn dangos bod y gyfradd absenoldeb gyffredinol yn ysgolion uwchradd Cymru wedi gwella 0.8 pwynt canran ers y flwyddyn flaenorol. Hwn yw'r gwelliant blwyddyn-i-flwyddyn unigol mwyaf a welwyd yn yr ysgolion uwchradd yn ystod y saith mlynedd diwethaf; ac y mae'r presenoldeb bellach yn 92.2 y cant. Fodd bynnag, mae lefel yr absenoldeb diawdurdod yng Nghymru yn parhau i beri pryder.

13. Cyfradd gyfartalog yr absenoldebau diawdurdod mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru yn 2011/12 oedd 1.4 y cant, ac yr oedd y lefelau mewn naw ALl yn uwch na'r gyfradd honno. Mae'r gyfradd yn amrywio ar draws yr ALlau i gyd; y gyfradd absenoldebau diawdurdod uchaf oedd 2.7 y cant a'r isaf oedd 0.4 y cant. Er bod y gyfradd absenoldebau diawdurdod wedi gostwng yn raddol o flwyddyn i flwyddyn, digwyddodd hynny ar gyfradd o 0.1 y cant y flwyddyn yn unig, nad yw'n profi bod unrhyw ostyngiad arwyddocaol wedi digwydd.

[5] www.cymru.gov.uk/topics/statistics/headlines/schools2012/120925/?lang=cy

14. Gellir dweud yr un peth am ysgolion cynradd. Y data diweddaraf am absenoldebau o ysgolion cynradd yw'r data am 2010/11[6] (gobeithir rhyddhau'r data am 2011/12 yn ystod Rhagfyr 2012) sy'n dangos bod lefel absenoldebau diawdurdod mewn ysgolion cynradd wedi aros yn gyson dros y blynyddoedd, gyda newidiadau o ddim mwy na 0.1 pwynt canran, i fyny neu i lawr, yn ystod unrhyw un flwyddyn.

15. Yn ôl y data, felly, mae lefel yr absenoldebau diawdurdod yn parhau'n gyson mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, a bydd unrhyw welliant arwyddocaol, felly, yn gwella'r cyfraddau absenoldeb cyffredinol yng Nghymru.

16. Trwy dargedu ymyriadau a thrwy ymgysylltu effeithiol rhwng ysgolion, teuluoedd a'r GLIA, gellir gwneud cyfraniad hollbwysig at ddatrys mater presenoldeb gwael yn yr ysgolion. Os nad yw hynny'n cael yr effaith a ddymunir ac os nad yw presenoldeb yn gwella, mae nifer o opsiynau ar gael eisoes i'r ALlau a'r ysgolion, i'w helpu i sicrhau presenoldeb rheolaidd. Mae'r opsiynau yn cynnwys contractau rhianta, gorchmynion rhianta, gorchmynion mynychu'r ysgol, gorchmynion goruchwylio addysg, yn ogystal ag erlyn drwy'r llysoedd mewn achosion eithafol o ddifrifol.

17. Yn rhan o'i hymgyrch i wella presenoldeb mae Llywodraeth Cymru wedi cyfarfod â phob ALl i drafod yn fanwl y lefelau presenoldeb yn eu hysgolion a'u perfformiad ynglŷn ag ymddygiad. Yn ystod y trafodaethau hyn cyfeiriodd nifer o'r ALlau at fater erlyniadau maith ac aneffeithiol yn y llysoedd ynghylch presenoldeb. Gofynnwyd i Lywodraeth Cymru ystyried cyflwyno hysbysiadau cosb sefydlog, fel opsiwn ychwanegol i'w helpu i sicrhau presenoldeb rheolaidd yn ysgolion.

18. Byddai hysbysiadau cosb yn cael eu defnyddi'n bennaf ar gyfer absenoldebau diawdurdod, megis:

- triwantiaeth amlwg (gan gynnwys disgyblion sy'n cael eu dal gan gyrchoedd triwantiaeth )
- gwyliau gormodol yn ystod tymhorau ysgol
- oedi gormodol cyn dychwelyd o wyliau estynedig heb gytundeb gyda'r ysgol ymlaen llaw
- cyrraedd yn hwyr yn rheolaidd (ar ôl cau'r gofrestr a chreu absenoldeb diawdurdod)
- absenoldeb gyda chydoddefiad y rhiant, gan gynnwys:
  - diwrnodau i ffwrdd o'r ysgol ar gyfer y Nadolig neu deithiau siopa
  - canfyddiad bod anfon plentyn i'r ysgol yn annheg pan fo brawd neu chwaer mewn ysgol arall yn cael diwrnod i ffwrdd ar gyfer HMS
  - cadw'r plentyn o'r ysgol am ddiwrnod cyfan ar gyfer apwyntiad meddygol neu ddeintyddol sy'n digwydd yn gynnar yn y bore neu'n hwyr yn y prynhawn.

[6] www.cymru.gov.uk/topics/statistics/headlines/schools2011/111214/?lang=cy

## Effeithiolrwydd hysbysiadau cosb

19. Yr astudiaeth ddiweddaraf a gynhaliwyd yn y DU o effeithiolrwydd hysbysiadau cosb ar gyfer amhresenoldeb rheolaidd yn yr ysgol yw honno a gomisiynwyd yn 2010 gan yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (fel y'i gelwid ar y pryd) yn Lloegr[7].

20. Y canlynol oedd rhai o'r canfyddiadau allweddol.

- Canfuwyd bod llythyrau yn rhybuddio ynghylch hysbysiadau cosb yn cael effaith bositif ar bresenoldeb disgyblion. Yn benodol, canfuwyd eu bod yn cyfrannu at wella presenoldeb disgyblion a oedd â nodweddion llai cyndyn na'i gilydd, ac nad oedd eu presenoldeb isel yn seiliedig ar faterion neu achosion penodol.

- Tybid yn aml bod bygwth hysbysiad cosb yn ddigonol ar gyfer gwella presenoldeb, heb orfod dyroddi hysbysiad mewn gwirionedd.

- Canfuwyd bod hysbysiadau cosb yn ffordd effeithiol o ddelio â materion prydlondeb, a hefyd ar gyfer achosion lle nad oedd ystyriaethau cymhleth yn codi neu pan nad oedd ymddangos bod unrhyw reswm gwaelodol yn achosi'r diffyg presenoldeb.

- Roedd hysbysiadau cosb yn llai effeithiol mewn amgylchiadau lle'r oedd problemau teuluol sylfaenol, neu yn yr achosion absenoldeb mwyaf cyndyn.

21. Er y dylai ysgolion ac ALlau ystyried pob un o'r opsiynau sydd ar gael iddynt, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod gan hysbysiadau cosb sefydlog y potensial i wella presenoldeb mewn achosion llai cymhleth na'i gilydd, fel rhan o becyn ehangach o gefnogaeth ac ymyriadau.

22. Mae system yr hysbysiad cosb sefydlog yn darparu opsiwn ychwanegol y gellir ei ddefnyddio cyn cychwyn unrhyw broses o erlyn yn y llysoedd. Dylai ysgolion ac ALlau ystyried pob achos unigol ar wahân, ac asesu'r lefel o gymorth ac ymyrryd sy'n ofynnol, cyn penderfynu ar y strategaeth fwyaf addas ar gyfer gwella presenoldeb disgybl unigol.

## Defnyddio hysbysiadau cosb

23. Mae hysbysiad cosb yn ymyriad addas mewn amgylchiadau pan fernir bod rhiant/gofalwyr[8] yn abl i sicrhau lleoliad neu bresenoldeb rheolaidd y plentyn ond nad yw'n fodlon ysgwyddo'r cyfrifoldeb o wneud hynny. Bwriedir yr hysbysiadau cosb ar gyfer eu defnyddio, yn unig, pan fo'r cydweithrediad o du'r rhieni naill ai'n absennol neu'n annigonol ar gyfer datrys y broblem. Defnyddir yr hysbysiadau fel dull o orfodi presenoldeb.

[7] www.education.gov.uk/publications/standard/publicationDetail/Page1/DFE-RR041

[8] Rhiant yn yr ystyr a roddir i 'parent' yn adran 576 o Ddeddf Addysg 1996.

24. Byddai'r system arfaethedig o hysbysiadau cosb yn galluogi rhieni/gofalwyr i osgoi sancsiynau mwy llym (megis gorchymyn goruchwylio addysg) drwy dalu cosb o £60 os telir y gosb o fewn 28 diwrnod, ac sy'n codi i £120 os telir ar ôl 28 ond cyn 42 diwrnod.

25. Os na fydd y gosb wedi ei thalu, neu wedi ei thalu yn rhannol yn unig, ar ddiwedd y cyfnod o 42 diwrnod, rhaid i'r ALl naill ai fynd ymlaen i geisio erlyn am y drosedd, neu dynnu'r hysbysiad yn ôl os nad yw'n bwriadu erlyn am y drosedd y mae'r hysbysiad yn gysylltiedig â hi.

26. Dim ond mewn achosion o absenoldeb anawdurdodedig y caniateir cyflwyno hysbysiad cosb. Er nad yw'r canlynol yn rhestr gynhwysfawr, byddid yn ystyried ei bod yn briodol cyflwyno hysbysiad o dan yr amgylchiadau a ganlyn.

- Mae plentyn wedi'i gyfeirio at y GLIA ac mae gwaith achos yn mynd rhagddo ond nid yw'r rhieni/gofalwyr yn cynorthwyo ymdrechion yr ysgol na'r GLIA i gynyddu presenoldeb a phan nad oes unrhyw sancsiynau cyfreithiol eraill ar y gweill.

- Pan fo methiant parhaus ar ran y rhieni/gofalwyr i sicrhau bod eu plant yn mynychu'r ysgol a bod presenoldeb yn is na canran benodol a gytunir o fewn yr awdurdod am gyfnod penodedig heb unrhyw reswm derbyniol a phan nad oes unrhyw sancsiynau cyfreithiol eraill ar y gweill.

- Pan fo presenoldeb yn syrthio yn is na canran benodol a gytunir o fewn yr awdurdod am gyfnod penodedig heb gyfiawnhad a diffyg presenoldeb ar ran y rhieni, ni fyddai erlyn o dan adran 444 o Ddeddf Addysg 1996 er budd y cyhoedd.

- Pan fo contractau rhianta a/neu orchmynion rhianta wedi bod yn aflwyddiannus neu pan nad oedd y rhieni wedi cydymffurfio â hwy.

- Pan fo rhieni/gofalwyr wedi bod yn anfodlon llofnodi contract yn cynnig cymorth a phan fo presenoldeb yn is na 85 y cant dros gyfnod penodedig heb gyfiawnhad rhesymol.

- Cymryd amser o'r ysgol yn ystod y tymor heb gytundeb yr ysgol, neu heb roi gwybod i'r ysgol, yn dilyn achos blaenorol o gymryd amser o'r ysgol yn ystod y tymor a phan fo'r rhieni/gofalwyr wedi cael eu rhybuddio y gallai hyn arwain at hysbysiad cosb.

- Cymryd amser o'r ysgol yn ystod cyfnodau arholiadau pan fo rhieni/gofalwyr wedi cael eu hysbysu ymlaen llaw a'u rhybuddio y gallai hynny arwain at hysbysiad cosb.

- Pan fo disgybl yn gyson hwyr ac yn cyrraedd ar ôl cau'r gofrestr.

- Pan fo plentyn yn dod i sylw’r heddlu yn ystod oriau ysgol am fod yn absennol o’r ysgol heb reswm derbyniol neu’n gysylltiedig â gweithgarwch troseddol tra’n triwanta o’r ysgol.

- Disgyblion a ganfyddir ar gynlluniau cyrchu triwantiaid oni bai fod rheswm y gellir ei gyfiawnhau am fod yn absennol o’r ysgol.

# Y cynigion

27. ALlau sy’n gyfrifol am weinyddu’r cynllun hysbysiadau cosb ac felly rhaid cyhoeddi cod ymddygiad lleol i sicrhau gweithrediad a gweinyddiaeth esmwyth o’r cynllun a gweithrediad cyson ar draws ardal yr ALl.

28. Bydd prifathrawon, yr heddlu (gan gynnwys swyddogion cymorth cymunedol) a phersonau achrededig y grym i gyflwyno hysbysiadau cosb. Mae’n rhaid i brifathrawon a’r heddlu cydymffurfio â chod ymddygiad lleol a chyhoeddir gan yr ALlau perthnasol wrth gyflwyno hysbysiadau cosb a darparu copi o unrhyw hysbysiad a chyhoeddwyd i’r ALl.

## Cod ymddygiad lleol

29. Er mwyn sicrhau fod y pwerau yn gymwysedig mae’n rhaid datblygu cod ymddygiad lleol. Pwrpas y cod ymddygiad lleol yw sicrhau y caiff y pwerau eu defnyddio mewn ffordd gyson a theg ar draws ardal yr ALl a bod trefniadau addas ar waith i weinyddu’r cynllun. Dylai’r codau lleol gynnwys datganiad i’r perwyl hwn.

30. Rhaid i unrhywun sy’n cyflwyno hysbysiad cosb wneud hynny o fewn telerau’r cod lleol. Cyfrifoldeb pob ALl yw llunio cod ymddygiad ar ôl ymgynghoriad gan yr awdurdod ar y cod arfaethedig of fewn ei ardal.

31. Mae’r cod ymddygiad lleol yn allweddol bwysig i llwyddiant yr hysbysiadau cosb. Mae’n sicrhau cysondeb, tegwch a thryloywder yn y modd y caiff hysbysiadau cosb eu defnyddio ac mae’n caniatáu i ALlau reoli’r system a’i theilwra i anghenion ac adnoddau lleol. Mae’r rheoliadau yn nodi bod yn rhaid cynnwys yn y cod lleol:

- modd o osgoi cyflwyno hysbysiadau dyblyg ac o sicrhau na chaiff hysbysiadau eu cyflwyno pan fo erlyniad am y trosedd dan sylw eisoes yn cael ei drefnu neu ar y gweill. Ffordd syml o gyflawni hyn, o bosib, fyddai cynnwys ei bod yn ofynnol cadarnhau gyda’r GLlA cyn cyflwyno hysbysiad
- pryd y bydd hi’n briodol cyflwyno hysbysiad cosb am drosedd. Yn achos triwantiaeth, rhaid i hyn gynnwys lefel yr absenoldeb anawdurdodedig sy’n angenrheidiol i sbarduno hysbysiad cosb. Wrth ystyried y sbardun hwn, dylai ALlau roi ystyriaeth i lefel yr absenoldeb anawdurdodedig y bydd yn fodlon ac yn abl i weithredu arni er mwyn erlyn am drosedd presenoldeb afreolaidd, oherwydd bydd yr ALl yn dilyn y cam hwn fel arfer pan na chaiff hysbysiad cosb ei dalu. Mae’n bosib y caiff meini prawf eraill eu cynnwys
- uchafswm yr hysbysiadau cosb y caniateir eu cyflwyno i un rhiant/gofalwr mewn unrhyw gyfnod o 12 mis
- trefniadau cyd-drefnu rhwng yr ALl a’i bartneriaid lleol.

## Pwy all gael hysbysiad cosb?

32. Mae'r gweithdrefnau hyn yn berthnasol i rieni/gofalwyr plant sydd o oedran ysgol gorfodol ac sydd wedi'u cofrestru mewn ysgol a gynhelir, uned cyfeirio disgyblion, a'r rhai sy'n mynychu darpariaeth o fath arall.

33. Yr ystyriaeth allweddol wrth benderfynu a ddylid cyflwyno hysbysiad cosb am driwantiaeth yw pu'n a allai fod yn effeithiol i helpu i gael y disgybl sy'n triwanta yn ôl i'r ysgol neu i ddarpariaeth o fath arall.

34. Gallai'r ymateb arferol i drosedd cyntaf fod yn rhybudd ysgrifenedig yn hytrach na chosb. Fodd bynnag, gellid cyflwyno hysbysiad cosb am drosedd cyntaf dan amgylchiadau pan fo ymddygiad y rhiant/gofalwr i'w feio'n benodol.

35. Dylai ALlau gymryd gofal i sicrhau y caiff hysbysiadau eu cyflwyno'n briodol a'u cyflwyno'n unig ar gyfer troseddau lle bo'r ALl yn fodlon erlyn ac yn gallu gwneud hynny.

## Unwaith y bydd hysbysiad cosb wedi'i gyflwyno

36. Ni ellir erlyn rhiant/gofalwr am y trosedd penodol y cyflwynwyd hysbysiad yn ei gylch nes bod dyddiad olaf y taliad wedi pasio. Hefyd, ni ellir ei gael yn euog o'r trosedd hwnnw os yw'n talu'r gosb yn unol â'r hysbysiad.

37. Oni chaiff cosb ei thalu'n llawn erbyn diwedd y cyfnod o 42 diwrnod, rhaid i'r ALl naill ai erlyn am y trosedd y mae'r hysbysiad yn berthnasol iddo neu ddiddymu'r hysbysiad.

38. Ni chaniateir diddymu hysbysiad cosb oni bai:

- na ddylid fod wedi'i gyflwyno yn y lle cyntaf, h.y. pan fo wedi'i gyflwyno oddi allan i amodau'r cod ymddygiad lleol neu os nad oes trosedd wedi'i gyflawni
- ei fod wedi'i gyflwyno i'r person anghywir
- ei fod yn cynnwys gwallau materol.

39. Caiff yr ALl gadw refeniw o'r cynllun hysbysiadau cosb i dalu costau cyflwyno neu orfodi hysbysiadau, neu'r gost o erlyn y rhai sy'n derbyn yr hysbysiadau ond nad ydynt yn talu. Rhaid cyflwyno unrhyw arian sy'n weddill, i Gronfa Gyfunol Cymru.

## Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

40. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn gytundeb rhyngwladol sy'n diogelu hawliau plant o dan 18 oed. Yn unol â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i'r CCUHP wrth gyflwyno cynigion polisi a deddfwriaeth newydd.

41. Wrth ystyried y cynigion hyn, rydym wedi rhoi sylw dyledus i'r Confensiwn. Er enghraifft, hawl y plentyn i gael addysg. Mae'r Confensiwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i roi llais i blant mewn prosesau gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y safbwyntiau a'r syniadau a fynegir gan blant wrth wneud penderfyniadau sy'n cael effaith uniongyrchol ar eu bywydau. Yn sgîl hynny, cynhyrchwyd fersiwn o'r ddogfen sy’n rhwydd i’w ddarllen.

## Ymateb i'r ymgynghoriad a chamau nesaf

42. Mae ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad gyda'r ddogfen ymgynghori sydd yn gofyn cwestiynau penodol a chynllunnir i helpu Llywodraeth Cymru pennu polisïau penodol am gyflwyniad hysbysiadau cosb.

43. Fodd bynnag, tra bod y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn edrych ar gwestiynau penodol, croesawir ymatebion mewn unrhyw ffurf a ddylid anfon at y cyfeiriadau canlynol.

**e-bost:** WELLBEINGshare@cymru.gsi.gov.uk

**Post:** Y Gangen Lles Disgyblion
Is-adran Cefnogaeth i Ddysgwyr
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

44. Yn dilyn diwedd yr ymgynghoriad mi fydd yr ymatebion yn cael ei dadansoddi a chaiff crynodeb o'r ymatebion ei chyhoeddi ar-lein. Mi fydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad wrth ddatblygu canllawiau a pholisïau penodol am gyhoeddi system hysbysiad cosb.

45. Caiff y cynigion o fewn y ddogfen ymgynghori ei chyflwyno trwy'r Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru). Caiff Asesiad Effaith Rheoleiddiol ei pharatoi i fynd gyda'r Rheoliadau a fydd yn amodol ar gymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru.